# Hawl Dioddefwyr i gael Adolygiad - Polisi a Chanllawiau 2020

Crown Prosecution Service

Crown Prosecution Service

# Contents


1. Cyflwyniad ..... 1
2. Hawl Dioddefwyr i gael Adolygiad - Trosolwg ..... 3
3. Cymhwysedd ..... 5
4. Gwneud Cais am Adolygiad ..... 8
5. Proses yr Adolygiad ..... 11
6. Cysylltiadau ..... 15
Atodiad A - Proses yr Adolygiad ..... 16
Atodiad B - Amserlenni ..... 17
Atodiad C - Geirfa Termau ..... 18


## 1. Cyflwyniad

1. Mae'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn rhoi canllawiau i erlynwyr ar yr egwyddorion cyffredinol i'w gweithredu wrth wneud penderfyniadau ynghylch erlyniadau. Rhaid i erlynwyr ddechrau neu barhau erlyniad dim ond pan yw achos wedi mynd trwy ddau gam y Prawf Cod Llawn: (i) y cam tystiolaethol; a ddilynir gan (ii) gam budd y cyhoedd. Mae'r Cod yn ei gwneud yn glir nad swyddogaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yw penderfynu a yw unigolyn yn euog o dramgwydd troseddol, ond i wneud asesiadau ynghylch a yw'n briodol cyflwyno cyhuddiadau i'r llys troseddol eu hystyried. Nid yw asesiad CPS o achos ar unrhyw gyfrif yn casglu, neu gyfleu, euogrwydd neu ymddygiad troseddol. Dim ond llys sy'n gallu gwneud casgliad o euogrwydd. Yn yr un modd, nid yw penderfyniad i beidio â dwyn cyhuddiadau troseddol o angenrheidrwydd yn golygu nad yw unigolyn wedi bod yn ddioddefwr trosedd. Nid rôl y CPS yw gwneud penderfyniadau o'r fath.

2. Yn hytrach, dyletswydd erlynwyr yw sicrhau yr erlynir yr unigolyn cywir am y trosedd cywir ac i ddwyn troseddwyr i gyfiawnder lle bynnag mae'n bosibl. Mae penderfyniadau gwaith achos a gymerir yn deg, yn ddiduedd ac ag uniondeb yn helpu i sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr, tystion, y rhai dan amheuaeth a'r cyhoedd. Rhaid i erlynwyr sicrhau y gweithredir y gyfraith yn briodol, y cyflwynir tystiolaeth berthnasol i'r llys ac y cydymffurfir â rhwymedigaethau datgelu.

3. Mae'r Cod i Erlynwyr y Goron yn nodi diffiniadau eang a ddefnyddir mewn gwaith achos a phroses wneud penderfyniadau CPS. I grynhoi:

- Defnyddir 'dioddefwr' i ddisgrifio unigolyn y cyflawnwyd trosedd yn ei erbyn, neu'r achwynydd mewn achos sy'n cael ei ystyried neu ei erlyn gan y CPS;
- Defnyddir 'rhywun dan amheuaeth' i ddisgrifio unigolyn sy'n cael ei ystyried i fod yn destun achos troseddol ffurfiol;
- ‘Defnyddir 'diffynnydd' i ddisgrifio unigolyn sydd wedi'i gyhuddo neu ei wysio; a
- Defnyddir 'troseddwr' i ddisgrifio unigolyn sydd wedi cyfaddef euogrwydd ynghylch cyflawni trosedd, neu sydd wedi'i gael yn euog mewn llys barn.

4. Mae gan ddioddefwyr troseddau a'r cyhoedd ddisgwyliad cyfreithlon y caiff y rhai hynny sy'n cyflawni troseddau eu dwyn i gyfiawnder. Ni all y disgwyliad hwn a hawliau dioddefwyr gael eu gwrth-wneud gan gred yr unigolyn dan amheuaeth na fyddant yn cael eu herlyn, gan gynnwys lle dywedwyd wrth yr unigolyn dan amheuaeth na fydd erlyniad neu lle ataliwyd erlyniad. Mae hefyd yn bwysig bod gan ddioddefwyr hawl i geisio adolygiad o benderfyniad i beidio ag erlyn, heb orfod troi at achos adolygiad barnwrol yn y lle cyntaf.

5. Mae'r cynllun Hawl Dioddefwr i Gael Adolygiad (VRR) yn galluogi dioddefwyr i geisio adolygiad o benderfyniadau penodol gan y CPS i beidio â chychwyn erlyniad neu atal erlyniad. Mae'n fesur diogelu pwysig yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â rheol gyfreithiol. Lansiwyd y cynllun yn 2013 ac mae'n rhoi effaith i'r egwyddorion a nodir yn achos Killick (R v Christopher Killick [2011]). Mae hefyd yn hawl a gynhwysir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddu.

6. Fel rheol, bydd cais am adolygiad trwy'r cynllun VRR yn cael ei ystyried a'i gwblhau gan y swyddfa CPS leol briodol, neu gan CPS Direct (CPSD), lle gwnaed y penderfyniad gwreiddiol. Efallai y bydd adolygiad pellach, yn annibynnol ar yr ardal leol, ar gael trwy Uned Apeliadau ac Adolygiad y CPS (ARU) o fewn yr Is-adran Troseddu Arbennig a Gwrth-derfysgaeth (SCCTD), lle mae'n gymwys. Mae'r ARU yn uned genedlaethol y CPS wedi'i staffio ag erlynwyr profiadol sy'n cynnal adolygiad annibynnol o'r achosion a atgyfeirir iddynt.

7. Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut mae'r cynllun VRR yn gweithio, pwy all ofyn am adolygiad, pa benderfyniadau y gellir eu hadolygu, sut i wneud cais am adolygiad a chamau'r adolygiad. Gellir gweld diagram yn nodi proses yr adolygiad yn Atodiad A, fframiau amser VRR yn Atodiad B a chynhwysir geirfa termau yn Atodiad C i helpu i egluro unrhyw derminoleg gyfreithiol.

Crown Prosecution Service

## 2. Hawl Dioddefwyr i gael Adolygiad - Trosolwg

8. Mae'r cynllun VRR yn darparu proses a gynllunir yn benodol i ddioddefwr ymarfer yr hawl i gael adolygiad o benderfyniadau penodol gan y CPS i beidio â chychwyn erlyniad neu i atal erlyniad. Os yw penderfyniad newydd yn ofynnol, efallai y bydd yn briodol sefydlu neu ailsefydlu achos troseddol.

9. Mae'r hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad i beidio ag erlyn o dan y cynllun VRR yn berthnasol i benderfyniadau sydd â'r effaith o gael eu gwneud yn derfynol gan bob Erlynydd y Goron, heb ystyried eu gradd neu swydd yn y sefydliad. Mae'n bwysig nodi mai'r "hawl" y cyfeirir ati yng nghyd-destun y cynllun VRR yw'r hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad terfynol. Nid yw'n warantedig y caiff achos ei sefydlu neu ei ailsefydlu.

10. Yn achlysurol mae achosion lle bydd y CPS yn gwrthdroi penderfyniad i beidio ag erlyn neu i ddelio â'r achos trwy warediad y tu allan i'r llys neu pan y bydd yn ailgychwyn yr erlyniad. Mae'r achosion hyn yn cynnwys:

    - achosion lle mae adolygiad pellach o'r penderfyniad gwreiddiol yn dangos ei fod yn anghywir ac, er mwyn cynnal hyder yn y system cyfiawnder troseddol, dylid dwyn erlyniad er gwaethaf y penderfyniad gwreiddiol;
    - achosion sy'n cael eu hatal fel y gellir casglu a pharatoi tystiolaeth rhagweledig arall, sy'n debygol o ddod ar gael yn y dyfodol gweddol agos. Yn yr achosion hyn, bydd yr erlynydd yn rhoi gwybod i'r diffynnydd y gallai'r erlyniad ailgychwyn;
    - achosion nad ydynt yn cael eu herlyn neu sy'n cael eu hatal oherwydd diffyg tystiolaeth ond lle darganfyddir rhagor o dystiolaeth arwyddocaol nes ymlaen;
    - achosion sy'n cynnwys marwolaeth lle mae adolygiad yn dilyn canfyddiadau cwest yn casglu y dylid dwyn erlyniad, er gwaethaf unrhyw benderfyniad cynharach i beidio ag erlynu.

    Ymhellach, gellir canfod enghreifftiau anghyflawn o achosion a ailgychwynnir, a'r hyn a allai olygu 'penderfyniad anghywir' yn y polisi 'Ailystyried Penderfyniad i Erlyn, sydd ar gael yma.

11. Rhaid i erlynwyr gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Twrnai Cyffredinol ac â pholisïau a chyfarwyddyd y CPS a gyhoeddir ar ran y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, oni bai y penderfynir bod rhesymau da neu amgylchiadau eithriadol i wyro o ddatganiad polisi mewn achos unigol (troednodyn 1).

Canlyniadau posibl i'r adolygiad

12. Yn dilyn adolygiad o dan y cynllun, gellir gychwyn neu ailgychwyn penderfyniadau cymwhwyso i beidio ag erlyn, i derfynu, ac i dynnu'n ôl, yn amodol ar unrhyw derfynau amser statudol. Mae dau ganlyniad posibl i adolygiad:

- **Penderfyniad Newydd**: pan wrthdröir y penderfyniad cynharach - gweler paragraff 10 uchod i weld rhai enghreifftiau o amgylchiadau lle bydd CPS yn gwrthdroi penderfyniad i beidio ag erlyn neu pan fydd yn ailgychwyn yr erlyniad.
- **Cynnal y Penderfyniad Blaenorol** - cynhelir y penderfyniad blaenorol i beidio ag erlyn, a hysbysir y dioddefwr a darperir esboniad iddo.

13. Lle mae'r penderfyniad cymhwyso wedi gofyn i Lys y Goron ganiatáu i bob cyhuddiad mewn achos 'aros ar y ffeil' (troednodyn 2) ac mae'r llys wedi gorchymyn felly, ni ellir ailgychwyn yr achosion hyn heb ganiatâd Llys y Goron neu'r Llys Apêl. Yng nghyd-destun adolygiad VRR, er y bydd y penderfyniadau cymhwyso hyn yn dal i gael eu hadolygu o dan y cynllun, oni bai fod newid arwyddocaol yn yr amgylchiadau wedi digwydd ers i'r gorchymyn gael ei wneud mae'n annhebygol iawn y bydd y llys yn rhoi caniatâd i ailgychwyn. Felly bydd unioni wedi'i gyfyngu i esboniad ac ymddiheuriad lle canfyddir bod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir.

14. Ni ellir cychwyn neu ailgychwyn rhai penderfyniadau cymhwyso, megis penderfyniadau i 'beidio â chynnig tystiolaeth' ac achosion a gaiff eu gwahardd gan statud (troednodyn 3). Mae hyn oherwydd bod y fath benderfyniadau'n derfynol, ac na ellir ailgychwyn achosion; eto, mae unioni o dan yr amgylchiadau hyn wedi'i gyfyngu i esboniad ac ymddiheuriad.

*Troednodiadau:*

*(1) Fel yr esboniodd yr Arglwydd Barnwr C.J. yn A v R [2012] EWCA Crim 434 ym mharagraff 84 mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle "mae'n dal i fod yn agored i'r erlyniaeth mewn achos unigol, am reswm da, i beidio â dilyn ei bolisi neu ganllawiau ei hun". Mae'n dilyn y gallai fod amgylchiadau eithriadol iawn lle gallai achosion sy'n syrthio o fewn eithriadau paragraff 19 isod gael eu hystyried serch hynny i'w cynnwys yn y cynllun VRR ar gyngor y rheolwr ARU neu uwch reolwr arall.*

*(2) Dyma'r term a ddefnyddir mewn amgylchiadau lle mae'r CPS yn gwneud penderfyniad i beidio â symud ymlaen ac yn gofyn i'r cyhuddiadau "aros ar y ffeil" wedi'u nodi 'i beidio â chael eu symud ymlaen heb ganiatâd y Llys hwn neu'r Llys Apêl'.*

*(3) Mae hyn yn golygu bod trosedd lle mae'r terfyn amser statudol i ddwyn achos troseddol wedi dod i ben ac nad yw'n bosibl bellach i unigolyn gael ei erlyn am y trosedd hwnnw. Fel arfer gellir rhoi troseddau sy'n dwyn terfyn amser statudol ar brawf dim ond mewn llys ynadon lle mae'n rhaid cychwyn achosion troseddol o fewn 6 mis o ddyddiad y trosedd.*

15. Mae'n bwysig nodi, er na ellir cychwyn neu ailgychwyn y fath achosion, ni fydd ansawdd a thryloywder yr adolygiad a wneir yn llai nag adolygiad a wneir ar gyfer unrhyw gategori arall o achos. Y mater pwysig yr eir i'r afael ag ef yn yr achosion hyn yw a oedd y penderfyniad cymhwyso gwreiddiol yn anghywir.

## 3. Cymhwysedd

Dioddefwyr

16. Mae 'ymddygiad troseddol' yn ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd o dan y Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau. Diffinnir dioddefwr at ddibenion y cynllun VRR fel a ganlyn:

"*unigolyn sydd wedi honni eu bod wedi dioddef niwed, gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd a achoswyd yn uniongyrchol gan ymddygiad troseddol'*.

Gall cwmpas y rhai yr effeithir arnynt, ac a ddiffinnir fel dioddefwr, gynnwys:

- perthnasau agos unigolyn yr achoswyd ei farwolaeth yn uniongyrchol gan ymddygiad troseddol;
- rhieni neu warcheidwaid lle mae'r prif ddioddefwr yn blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed (troednodyn 4);
- swyddogion heddlu sy'n ddioddefwyr troseddau;
- llefaryddion teuluoedd ar ran dioddefwyr ag anabledd neu sydd wedi'u hanafu mor wael na allant gyfathrebu; a
- busnesau, cyhyd ag eu bod yn rhoi pwynt cyswllt a enwir;

17. Nid oes unrhyw gyfyngiadau oedran ynghylch y rhai hynny sydd â hawl i geisio adolygiad o dan y cynllun VRR. Fodd bynnag, os yw rhywun yn dymuno cyflwyno cais i gael adolygiad ar ran dioddefwr ac nad ydynt yn dod o fewn un o'r diffiniadau a restrir uchod, rhaid darparu cadarnhad ysgrifenedig bod ganddynt awdurdod y dioddefwr i weithredu ar eu rhan.

Penderfyniadau

18. Mae'r hawl i ofyn am adolygiad o dan y cynllun VRR yn codi lle mae'r CPS:
    - yn gwneud penderfyniad terfynol i beidio â dwyn achos (h.y. ar y cam cyn cyhuddo);

*Troednodiadau:*
*(4) Yn ychwanegol i atgyfeiriad gan riant neu warcheidwad, gellir cymryd atgyfeiriadau oddi wrth unigolion addas a phriodol eraill sy'n gysylltiedig â'r plentyn neu berson ifanc yn ôl disgresiwn y CPS*

- yn rhoi terfyn, neu'n tynnu yn ôl pob cyhuddiad (troednodyn 5) yn ymwneud â'r dioddefwr, ac felly'n rhoi terfyn llwyr ar bob achos sy'n ymwneud â hwy;
- wedi cynnig bod dim tystiolaeth ym mhob achos sy'n ymwneud â'r dioddefwr; neu
- yn gofyn i'r llys adael pob cyhuddiad yn yr achos i 'aros ar y ffeil'.

Gelwir y rhain yn '**benderfyniadau cymhwyso'** a maent yn benderfyniadau sydd â'r effaith o fod yn derfynol.

19. Mae penderfyniadau nad ydynt yn gymwys am VRR yn cynnwys:

(i) lle gwnaed y penderfyniad cymhwyso cyn 5 Mehefin 2013;
(ii) lle nad yw'r CPS wedi gwneud penderfyniad sydd â'r effaith o fod yn derfynol ar y cam cyn cyhuddo;
(iii) lle mae'r heddlu neu ymchwilydd arall yn ymarfer eu disgresiwn annibynnol i beidio ag ymchwilio neu i beidio ag ymchwilio ymhellach i achos (ai wrth ymgynghori â'r CPS neu beidio) ac na ofynnwyd i'r CPS /nad oedd y CPS yn gallu gwneud penderfyniad terfynol i gyhuddo. Yn lle, dylai ceisiadau am adolygiad o'r fath benderfyniadau gael eu cyfeirio at yr heddlu/ymchwilydd arall perthnasol;
(iv) lle mae cyhuddiadau'n cael eu dwyn ynghylch rhai (ond nid yr holl) honiadau a wneir neu yn erbyn rhai (ond nid yr holl) unigolion dan amheuaeth;
(v) lle mae cyhuddiad sengl neu gyhuddiadau'n cael eu terfynu (troednodyn 6) ond mae cyhuddiad neu gyhuddiadau eraill yn ymwneud â'r dioddefwr hwnnw'n parhau;
(vi) lle mae achos yn erbyn un diffynnydd (neu fwy) yn cael ei derfynu ond mae achos (yn ymwneud â'r dioddefwr hwnnw) yn erbyn diffynyddion eraill yn parhau;
(vii) lle mae cyhuddiad sengl neu gyhuddiadau'n cael eu newid yn sylweddol ond mae'r achos yn ymwneud â'r dioddefwr hwnnw'n parhau;
(viii) achosion lle mae rhai (ond nid yr holl) gyhuddiadau'n cael eu gadael i aros ar y ffeil;
(ix) achosion a gwblheir trwy waredlad y tu allan i'r llys (troednodyn 7);

*Troednodiadau:*
*(5) Lle nad yw honiadau eraill wedi'u cyhuddo, dim ond y cyhuddiad a derfynwyd all fod yn destun adolygiad o dan y cynllun VRR.*
*(6) Gellir canfod gwybodaeth arall am derfynu achosion ar wefan y CPS yma.*
*(7) Mae "gwarediad y tu allan i'r llys" yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio dewisiadau amgen yn hytrach nag erlyn megis rhybuddiadau, rhybuddiadau amodol a hysbysiadau cosb ar gyfer anhrefn, a fwriedir i ddelio â throseddu lefel isel, yn aml am y tro cyntaf, lle na fyddai erlyn er budd y cyhoedd. Mae hefyd yn cynnwys gorchmynion ffrwyno a roddir ar waith yn dilyn rhyddfarnu neu benderfyniad i beidio â chynnig tystiolaeth.*

(x) achosion lle mae'r dioddefwr yn gofyn bod yr achos yn cael ei atal neu mae'n tynnu cefnogaeth yn ôl am yr erlyniad ac felly cymerir penderfyniad i beidio â chyhuddo/terfynu'r achos.Os nad yw dioddefwr yn mynychu'r llys i roi tystiolaeth pan yw'n ofynnol iddo a heb ddarparu rhybudd rhesymol, ac na all erlyniad symud ymlaen, gellir tybio bod hyn yn golygu tynnu cefnogaeth i'r erlyniad yn ôl oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn bodoli; ac

(xi) achosion sy'n cael eu dirwyn i ben o dan amgylchiadau lle gallai'r erlyniaeth fod â hawl i apelio (troednodyn 8) neu lle gwneir penderfyniad i beidio â gwrthwynebu cais i wrthod cyhuddiadau yn unol â Rheol 9.16 Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2015.

Hefyd nid yw VRR ar gael mewn achosion lle mae penderfyniad personol y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

20. Gall achosion nas cyhuddir neu a atelir sy'n cael yr effaith o fod yn benderfyniadau terfynol oherwydd ymchwiliadau sy'n weddill neu wybodaeth neu ddeunydd y gofynnwyd amdani/amdano o'r ymchwilydd gan yr erlynydd ond nas derbyniwyd, fod yn destun adolygiad o dan y cynllun VRR ond mae'n gyfyngedig i'r cam penderfyniad lleol (gweler paragraff 40 isod i weld rhagor o wybodaeth ar benderfyniadau lleol). Gellir ailgychwyn y fath achosion, yn unol â'r polisi 'Ailystyried Penderfyniad i Erlyn', os bydd y deunydd yn dod ar gael yn ystod adolygiad y cam penderfyniad lleol ac os diwallir y prawf Cod Llawn pryd hynny. Os bydd y deunydd yn dod ar gael yn ystod yr adolygiad hwn, ond mae'r Ardal yn dal i gynnal y penderfyniad gwreiddiol am resymau pellach sy'n dystiolaethol neu sydd er budd y cyhoedd, dim ond pryd hynny fydd y penderfyniad yn dod yn gymwys i gael adolygiad annibynnol gan yr ARU.

<u>Dyddiad y penderfyniad</u>

21. Nid yw'r cynllun VRR yn ôl-weithredol o ran ei weithredu a chaiff ei weithredu dim ond i achosion lle gwnaed y penderfyniad cymhwyso ar neu ar ôl 5 Mehefin 2013 (y dyddiad y lansiwyd y cynllun VRR).

*Troednodiadau:*

*(8) Mae hyn yn cynnwys ceisiadau am adolygiad barnwrol neu i ddatgan achos.*

22. Mae trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer penderfyniadau a wnaed cyn 5 Mehefin 2013 mewn perthynas â honiadau o gamdrin plant yn rhywiol. Mewn achosion o'r fath, mae'r Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol yn edrych eto ar achosion lle mae unigolyn wedi gwneud honiadau blaenorol o fod yn ddioddefwr trosedd rhywiol pan oeddent o dan 18 oed, ac mae'r heddlu neu'r CPS wedi penderfynu na ddylid gweithredu ar y pryd. Os cymerwyd y penderfyniad ynghylch honiadau o gam-drin plant yn rhywiol ar neu ar ôl 5 Mehefin 2013, gellir gwneud cais am adolygiad o dan y cynllun VRR. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar y dudalen Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol, ar wefan y CPS.

Cwynion

23. Os ystyrir nad yw'r cais am adolygiad yn syrthio o fewn cwmpas y cynllun VRR, efallai y bydd yn fwy priodol trin y cais fel cwyn, ac yn unol â pholisi Adborth a Chwynion y CPS . Mae terfyn amser o chwe mis ar gyfer dwyn cwyn o dan y polisi ym mhob un ond yr amgylchiadau mwyaf eithriadol. Dylid rheoli cwynion bob tro yn y swyddfa CPS neu CPSD leol, ac ni ddylid eu hatgyfeirio i ARU, oni bai fod y cwyn yn perthyn i'r modd mae'r ARU wedi trin yr achos.

24. Os yw rhai elfennau cais y dioddefwr yn golygu cwyn, tra bo elfennau eraill yn dod o fewn cwmpas y cynllun VRR, ni fydd angen bob tro i aros am ganlyniad yr adolygiad o dan y cynllun VRR er mwyn i'r cwyn gael ei hystyried ac i ymateb gael ei ddarparu. Fodd bynnag, os oes gorgyffyrddiad, ac asesir bod rhaid cwblhau'r VRR yn gyntaf, hysbysir y dioddefwr y caiff y mater sy'n cael ei drin fel cwyn yn cael ei drafod ar ddiwedd y broses VRR.

Erlyniadau Preifat

25. Lle mae'r CPS yn ystyried bod VRR ar gael ynghylch penderfyniad cymhwyso a wnaed yn unol â pholisi Erlyniadau Preifat y CPS (e.e. lle mae erlyniad wedi'i gymryd drosodd gan y CPS ac wedi'i derfynu neu ei atal), seilir yr adolygiad annibynnol ar y deunydd a ddarparwyd i'r erlynydd a wnaeth y penderfyniad cymhwyso gwreiddiol. Fodd bynnag, mae'r erlynydd sy'n adolygu yn cadw'r hawl i ofyn am fwy o ddeunydd, fel y gellid ystyried sy'n angenrheidiol.

## 4. Gwneud Cais am Adolygiad

Sut a phryd i wneud cais am adolygiad

26. Hysbysir dioddefwyr o benderfyniad yr erlyniaeth i beidio â dwyn achos/dirwyn achos i ben. Lle mae ymchwilydd yn gyfrifol am hysbysu

dioddefwr o benderfyniad i beidio â dwyn achos, bydd yr ymchwilydd yn hysbysu'r dioddefwr o'u hawl i gael adolygiad ar ran y CPS. Bydd yr hysbysiad hwn yn cynnwys y wybodaeth ddilynol:

(a) natur y penderfyniad - h.y. i beidio â chyhuddo neu i roi terfyn ar achos; ac
(b) a wnaed y penderfyniad ar sail dystiolaethol neu fudd y cyhoedd neu seiliau eraill.

27. Os yw'r penderfyniad yn 'benderfyniad cymhwyso' (a ddiffinir uchod ym mharagraff 18), bydd yr hysbysiad yn cadarnhau bod y dioddefwr yn gymwys i wneud cais am adolygiad o dan y cynllun VRR a bydd yn darparu digon o wybodaeth i alluogi'r dioddefwr i benderfynu a ydynt yn dymuno i'r adolygiad ddigwydd neu beidio, ac os felly, pa gamau mae angen iddynt eu cymryd. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwneud cais am adolygiad o benderfyniad, ond sy'n ansicr ynghylch sut i wneud hynny, gysylltu â'u swyddfa CPS leol i gael gwybodaeth bellach.

28. Nid oes unrhyw ofyniad i ddioddefwr geisio cyngor cyfreithiol na chynrychiolaeth nag i ddarparu rhesymau dros wneud cais am adolygiad. Yr unig gam mae angen i ddioddefwr ei gymryd yw hysbysu'r CPS o'u cais am adolygiad, o fewn yr amserlen cytunedig. Fe gaiff unrhyw sylwadau a wneir eu hystyried ond dylid eu cyflwyno o fewn 14 diwrnod o'r cais am adolygiad. Bydd dioddefwyr yn derbyn manylion cyswllt y swyddfa CPS berthnasol er mwyn iddynt gysylltu trwy eu modd dewisol.

29. Nid yw'r rhai dan amheuaeth yn cael eu hysbysu fel mater o drefn bod cais wedi'i wneud am adolygiad o dan y cynllun VRR. Bwriad hwn yw cadw cyfrinachedd i'r dioddefwr gan y bydd yr unigolyn dan amheuaeth wedi'i ryddhau o unrhyw amodau neu rwymedigaethau mechnîaeth. Fodd bynnag, dylai'r rhai dan amheuaeth fod wedi cael eu hysbysu gan yr heddlu y gallai erlyniad ddal i gael ei ddwyn os bydd tystiolaeth neu wybodaeth bellach yn dod i'r amlwg, neu os caiff y penderfyniad ei ailystyried gan Erlynydd y Goron a fydd yn penderfynu bod angen penderfyniad newydd.

<u>Amserlenni</u>

30. Fel rheol dylid gwneud cais am adolygiad o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad llythyr y penderfyniad. Gellir cyflwyno ceisiadau ar ôl 10 diwrnod gwaith, er y gallai oedi effeithio'n negyddol ar ganlyniad y broses i wneud penderfyniadau. Ymhellach, mae'n annhebygol y caiff ceisiadau a wneir mwy

na thri mis ar ôl i'r penderfyniad cymhwyso gael ei gyfathrebu'n cael eu derbyn oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn bodoli. Er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr, gall amgylchiadau eithriadol gynnwys pan nad yw dioddefwr wedi'i hysbysu o'u hawl i gael adolygiad, neu pan roddwyd gwybodaeth anghywir ynghylch yr amserlenni.

31. Bydd y CPS, lle bynnag mae'n bosibl, yn cwblhau'r adolygiad a chyfathrebu'r penderfyniad i'r dioddefwr o fewn amserlen adolygu cyffredinol o 30 diwrnod gwaith. Mewn achosion lle nad yw'n bosibl darparu penderfyniad VRR o fewn yr amserlenni arferol, er enghraifft mewn achosion mwy cymhleth, bydd y CPS yn hysbysu'r dioddefwr yn unol â hynny. Darperir diweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd yr adolygiad, er na fydd y rhain yn amlach na phob 20 diwrnod gwaith wedyn, hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol. Gellir gweld crynodeb o'r amserlenni hyn yn Atodiad B.

32. Lle bydd achos yn cael ei wahardd gan statud cyn i'r cyfnod VRR ddod i ben, bydd y CPS yn anelu at hwyluso'r broses VRR a darparu penderfyniad o fewn y cyfnod amser statudol, os yn bosibl. Fe fydd y dyddiad pan gaiff yr achos ei wahardd gan statud ei nodi a'i gyfathrebu i'r dioddefwr pan gyfathrebir y penderfyniad cymhwyso fel bod y terfyn amser yn glir. Dylid nodi, lle atgyfeirir achos i gael adolygiad ar ddyddiad sy'n agos i ddyddiad dod i ben y terfyn amser statudol, efallai na fydd yn bosibl bob tro i adolygiad gael ei gwblhau o fewn y terfyn amser ar gyfer dwyn erlyniad.

Cwrdd â Dioddefwyr

33. Mewn rhai amgylchiadau, mae hawl gan ddioddefwyr i wneud cais am gyfarfod â'u swyddfa CPS neu CPSD leol er mwyn trafod penderfyniad cymhwyso, cyn gwneud cais am adolygiad o dan y cynllun VRR. Gall hyn gynnwys achosion sy'n ymwneud â throseddau rhywiol, achosion lle mae marwolaethau wedi digwydd ac achosion yn ymwneud â throseddau casineb. Weithiau gall cyfarfod helpu dioddefwr i ddeall yn well y broses i wneud penderfyniadau a'r rhesymau am benderfyniad, a bydd hyn yn negyddu'r gofyniad i gael adolygiad o dan y cynllun VRR. Fodd bynnag, mae amgylchiadau lle efallai na fydd cyfarfod yn briodol nag yn ddefnyddiol. Os yw'r Erlynydd o'r farn nad yw cyfarfod yn briodol ar y cam hwnnw, er enghraifft, lle mae adolygiad o dan y cynllun VRR eisoes wedi'i geisio neu lle y'i rhagwelir, dylid esbonio'r rhesymau i'r dioddefwr ac os yn bosibl dylid gohirio unrhyw gyfarfod tan ar ôl i'r VRR gael ei gwblhau, os yw'n ofynnol o hyd.

34. Mae hyn oherwydd bod cyfyngiadau ynghylch yr hyn y gellir ei drafod mewn cyfarfod gyda dioddefwyr cyn bod adolygiad o dan y cynllun VRR wedi'i gwblhau. Er enghraifft, gallai trafod tystiolaeth mewn achos fod yn rhagfarnus, os caiff y penderfyniad ei wrthdroi wedyn yn dilyn adolygiad o dan y cynllun

VRR. Gall y cyfyngiadau hyn atal unrhyw wybodaeth ystyrlon bellach rhag cael ei darparu. Mae'n debygol y bydd cyfarfod ar ôl i adolygiad o dan y cynllun VRR gael ei gwblhau yn fwy buddiol i ddioddefwr, pan yw cyfyngiadau ynghylch yr hyn y gellir ei drafod yn agored wedi dod i ben.

35. Os yw dioddefwr yn gofyn am gyfarfod cyn gwneud cais am VRR, dylid eu cynghori, os ydynt yn ystyried cais am adolygiad o dan y cynllun VRR, y dylid gohirio unrhyw gyfarfod tan ar ôl i'r VRR gael ei gwblhau. Unwaith i'r adolygiad o dan y cynllun VRR gael ei gwblhau dylai unrhyw gyfarfod gael ei gynnal gan y swyddfa CPS neu CPSD leol a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol.

## 5. Proses yr Adolygiad

36. Gall y cynllun VRR gynnwys dau gam adolygu:

- yn gyntaf, cam datrys lleol lle cynhelir adolygiadau gan erlynydd newydd yn y swyddfa CPS neu CPSD leol briodol lle gwnaed y penderfyniad gwreiddiol (troednodyn 9);
- yn ail, (os cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol i beidio ag erlyn), os yn gymwys, adolygiad sy'n annibynnol ar y swyddfa CPS leol lle gwnaed y penderfyniad gwreiddiol, a gynhelir gan yr ARU.

Os gwnaed y penderfyniad gwreiddiol gan erlynydd mewn CCD, cynhelir adolygiad gan erlynydd arall yn y CCD heb unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos, neu erlynydd arall â chymwysterau addas sydd â'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol.

Gellir gweld diagram y broses yn Atodiad A.

37. Bydd math y penderfyniad cymhwyso sy'n cael ei adolygu a'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol yn penderfynu ar y llwybr cywir i'r adolygiad. Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb ac yn nodi'r adolygiad cyfatebol.

| **Penderfyniad cymhwyso** | **Y penderfyniwr** | **Adolygiad** |
|---|---|---|
| • Peidio â chyhuddo;<br>• Terfynu;<br>• Tynnu'n ôl; neu<br>• Aros ar y ffeil. | Prif Erlynwyr y Goron (troednodyn 10) | Syth at yr Adolygiad Annibynnol gan ARU. |
| | Is-adrannau. Gwaith Achos | Caiff y mwyafrif o adolygiadau eu trin o fewn yr |

| | | |
|---|---|---|
| | Canolog | Is-adran Gwaith Achos Canolog, heb unrhyw adolygiad ARU ymlaen. Gall Pennaeth yr Is-adran benodi erlynydd (fel arfer) o'u His-adran eu hun nad yw wedi bod yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol.Dim cam datrysiad lleol |
| | Erlynwyr Ardal CPS | Datrysiad Lleol, yna Adolygiad Annibynnol gan ARU (oni bai fod amodau ym mharagraff 20 yn berthnasol acnad yw Adolygiad Annibynnol ar gael). |
| • Peidio â chynnig tystiolaeth; neu<br>• Os yw'r terfyn amser wedi dod i ben. | Prif Erlynwyr y Goron. | Wedi'i ddyrannu i uwch erlynydd arall o fewn CPS nad oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol, heb unrhyw adolygiad ARU ymlaen. |
| | Is-adrannau. Gwaith Achos Canolog. | Caiff y mwyafrif o adolygiadau eu trin o fewn yr Is-adran Gwaith Achos Canolog, heb unrhyw adolygiad ARU ymlaen. Gall Pennaeth yr Is-adran benodi erlynydd (fel arfer) o'i adran ei hun nad yw wedi bod yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol. |
| | Erlynwyr Ardal CPS. | Prif Erlynydd y Goron Dirprwy Brif Erlynydd y Goron. |

*Troednodiadau:*

*(9) Nid yw datrysiad lleol ar gael ar gyfer achosion CCD oherwydd maint a chymhlethdod.*

*(10) Gall penderfyniad gan Brif Erlynydd y Goron gynnwys y rhai a gymerir yn bersonol gan CCP neu a gymeradwyir gan CCP.*

38. Yn unol â pholisïau CPS sefydledig, os yw achos o natur lle dylai penderfyniadau gael eu cymryd gan arbenigwyr mewn maes arbennig (e.e. treisio a throseddau rhywiol difrifol), cynhelir yr adolygiad hefyd gan arbenigwr perthnasol.

39. Fel arfer bydd unrhyw benderfyniad cymhwyso a gymerir gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol CPS (DLS) yn cael ei atgyfeirio i DLS arall nad yw wedi bod yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol, i'w adolygu. Ar ben hynny, efallai y bydd achosion VRR sy'n arbennig o sensitif neu gymhleth lle ymgynghorir â'r DLS neu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) gan Bennaeth SCCTD neu lle maent yn gofyn yr ymgynghorir â nhw neu i ymgymryd â'r adolygiad annibynnol, yn ôl eu disgresiwn ac yn unol â'n trefniadau sefydledig ar gyfer gwneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau natur annibynol yr adolygiad, gall hyn ddigwydd dim ond os nad yw'r DLS ac/neu'r DPP wedi bod y gysylltiedig â'r penderfyniad cychwynnol.  Nid oes unrhyw hawl i ddioddefwr wneud cais am adolygiad gan y DLS na'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

<u>Datrysiad Lleol</u>

40. Ar gam y datrysiad lleol, ar gyfer penderfyniadau cymhwyso i beidio â chyhuddo, terfynu, tynnu'n ôl neu aros ar y ffeil, dylai'r swyddfa CPS neu CPSD leol benodi erlynydd newydd, nad oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad cymhwyso gwreiddiol, i gynnal yr adolygiad datrysiad lleol.

41. Os mai canlyniad yr adolygiad ar y cam hwn yw y dylid cychwyn neu ailgychwyn achos, dilynir gweithdrefnau priodol a diweddarir y dioddefwr.

42. Os mai canlyniad yr adolygiad yw cynnal y penderfyniad gwreiddiol i beidio ag erlynu, darperir gwybodaeth ychwanegol neu esbonad pellach i'r dioddefwr, ac fe'u hysbysir, os ydynt yn dal yn anfodlon ar y penderfyniad y dylent gysylltu â'r ARU i wneud cais am adolygiad annibynnol (troednodyn 11). Darperir manylion cyswllt ynghyd â chanllawiau ynghylch sut i symud ymlaen, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Dylai dioddefwyr gwneud y cais hwn o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn penderfyniad yr adolygiad datrysiad lleol. Ar ôl i'r adolygiad annibynnol gael ei derfynu,rhoddir esboniad llawn o'r penderfyniad i'r dioddefwr.

*Troednodyn:*
*(11) Ac eithrio adolygiadau achos a ddisgrifir ym mharagraff 20, lle nad yw adolygiad annibynnol ar gael.*

43. Er mwyn i benderfyniadau cymhwyso beidio â chynnig tystiolaeth, dylai'r adolygiad gael ei gynnal gan CCP neu Ddirprwy Brif Erlynydd y Goron (DCCP) o fewn y swyddfa CPS leol. Os gwnaed y penderfyniad cymhwyso gwreiddiol i 'beidio â chynnig tystiolaeth' gan CCP, dylid dyrannu'r adolygiad i uwch erlynydd arall o fewn CPS nad oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol. Dylid mabwysiadu'r un ymagwedd ag achosion sy'n cael eu gwahardd gan statud ar ôl i benderfyniad cymhwyso gael ei wneud ond cyn i adolygiad gael ei geisio neu ei gwblhau. Yn yr amgylchiadau hyn, nid oes unrhyw adolygiad pellach gan yr ARU.

<u>Adolygiad o achosion CCD</u>

44. Lle cymerwyd penderfyniad o fewn CCD, cynhelir adolygiad gan erlynydd CCD arall nad oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol neu erlynydd arall â chymwysterau addas sydd â'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol.

45. Mae angen y trefniad gwahanol hwn oherwydd y gallai natur yr erlyniadau a wneir yn y CCDs olygu, yn y mwyafrif o achosion, y byddai erlynydd â phrofiad o'r arbenigedd neilltuol dan sylw yn y sefyllfa orau i gynnal yr adolygiad. Yn dilyn adolygiad o fewn y CCD, nid oes unrhyw adolygiad pellach gan yr ARU.

<u>Newid mewn amgylchiadau</u>

46. Pan gymerir penderfyniad newydd yn dilyn adolygiad o dan y cynllun VRR, ac mae erlyniad wedi'i gychwyn neu ei ailgychwyn, gall yr yr erlyniad gael ei atal wedyn dim ond o dan amgylchiadau eithriadol os oes newid yn amgylchiadau'r achos, er enghraifftlle mae tystiolaeth newydd neu golli tystiolaeth yn golygu na ellir diwallu Prawf Cod Llawn bellach. Os bydd y fath amgylchiadau'n codi, atgyfeirir yr achos yn ôl i'r ARU (oni bai na fydd hyn yn ymarferol, e.e. un ystod treial) er mwyn ystyried a ddylid atal yr erlyniad. Os bydd yr ARU yn penderfynu atal yr erlyniad, nid oes unrhyw hawl i gael adolygiad pellach o dan y cynllun VRR.

<u>Adolygiad barnwrol</u>

47. Ar ôl i'r broses VRR ddod i ben, nid oes unrhyw gwmpas i gael adolygiad pellach gan y CPS. Os yw'r dioddefwr yn dal i fod yn anfodlon ar y penderfyniad, ac/neu mae'n dymuno ei herio ymhellach, yna dylai'r dioddefwr ystyried rhinweddau gwneud cais i'r Uchel Lys i gael adolygiad barnwrol o'r penderfyniad. Mae'n debygol y bydd disgwyl y bydd adolygiad o dan y cynllun VRR wedi'i ymarfer cyn i unrhyw adolygiad barnwrol o benderfyniad cymhwyso gael ei gychwyn.

## 6. Cysylltiadau

48. Os hoffai unrhyw un ofyn cwestiwn ynghylch y cynllun VRR, yn y lle cyntaf dylent gysylltu â swyddfa Ardal y CPS lle gwnaed y penderfyniad cymhwyso gwreiddiol. Bydd y manylion cyswllt wedi'u darparu pan wnaeth y CPS eich hysbysu bod y penderfyniad wedi'i wneud. Os nad yw'r manylion hyn gennych, ewch I adran Gysylltiadau gwefan y CPS.


49. Gall desg gymorth ymholiadau cyhoeddus y CPS ddarparu gwybodaeth gyffredinol ynghylch y CPS a chyngor ar pwy y dylid gysylltu â nhw os oes gennych ymholiad penodol. Ni all y tîm rhoi cyngor cyfreithiol, ond efallai y gallant ddarparu gwybodaeth ymarferol. Peidiwch â chysylltu â'r ddesg gymorth ymholiadau cyhoeddus ynghylch achosion penodol. Gallwch gysylltu â'r ddesg gymorth ymholiadau cyhoeddus ar:

    Ffôn: 020 3357 0899
    E-bost: enquiries@cps.gov.uk

    Ymholiadau Cyhoeddus y CPS
    102 Petty France
    Llundain
    SW1H 9EA.

## Atodiad A - Proses yr Adolygiad

Bydd math y penderfyniad cymhwyso sy'n cael ei adolygu a'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol yn penderfynu'r llwybr cywir ar gyfer yr adolygiad.



## Atodiad B - Amserlenni

Gellir gweld crynodeb eang o amserlenni VRR cysylltiedig isod. Cyfeiriwch at baragraffau 30-32 i weld rhagor o wybodaeth.

| Cam | Amserlen |
|---|---|
| **Cais y dioddefwr i gael adolygiad** | Wedi'i gyflwyno o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad llythyr y penderfyniad. |
| **Datrysiad lleol** | Wedi'i gwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn cais am adolygiad |
| **Cais gan y dioddefwr i gael adolygiad annibynnol (lle mae ar gael)** | O fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn penderfyniad yr adolygiad datrysiad lleol. |
| **Adolygiad annibynnol** | Wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn cais am adolygiad. |
| **Cyfathrebu canlyniad yr adolygiad terfynol** | Bydd y CPS, lle bynnag mae'n bosibl, yn gorffen yr adolygiad a chyfathrebu'r penderfyniad i'r dioddefwr o fewn amserlen cyffredinol i'r adolygiad o 30 diwrnod gwaith, |

Ar gyfer achosion a adolygir gan CCP, DCCP neu uwch erlynydd arall neu lle adolygir penderfyniadau CCD o fewn CCD gan uwch erlynydd arall, fe gaiff adolygiad ei gwblhau o fewn 30 diwrnod gwaith.

Yn yr holl achosion lle nad yw'n bosibl darparu penderfyniad VRR o fewn yr amserlenni arferol, er enghraifft mewn achosion mwy cymhleth, bydd y CPS yn hysbysu'r dioddefwr yn unol â hynny. Darperir diweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd yr adolygiad, er na fydd y rhain yn amlach na phob 20 diwrnod wedyn, hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol.

## Atodiad C - Geirfa Termau

| | |
|---|---|
| **ARU** | Uned Apeliadau ac Adolygu |
| **CCD** | Adran Gwaith Achos Ganolog |
| **CCP** | Prif Erlynydd y Goron. |
| **CPS** | Gwasanaeth Erlyn y Goron. |
| **DCCP** | Dirprwy Brif Erlynydd y Goron. |
| **Penderfyniad i beidio â chyhuddo** | Pan yw erlynydd wedi penderfynu na ddylid cyhuddo unigolyn â thramgwydd troseddol, yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. |
| **Penderfyniad i derfynu** | Mae Adrannau 23 a 23A Deddf Erlyn Troseddau 1985 yn roi'r pŵer i erlynwyr i derfynu neu atal achosion. |
| **Penderfyniad i aros ar y ffeil** | Yn Llys y Goron mae gan y barnwr y pŵer i orchymyn bod ditiadau llawn neu rai cyfrifon ar dditiad yn 'aros ar y ffeil'. Nid oes rheithfarn, felly ni therfynir yr achos yn ffurfiol. Ni ellir cynnal achos pellach yn erbyn y diffynnydd ar y materion hynny, heb ganiatâd Llys y Goron neu'r Llys Apêl |
| **Penderfyniad i dynnu'n ôl** | I dynnu cyhuddiad yn ôl yn Llys yr Ynadon. Gellir tynnu troseddau yn ôl gan yr erlynydd yn Llys yr Ynadon (yn unig) ar unrhyw adeg cyn i'r llys wneud dyfarniad. |
| **Adolygiad Annibynnol** | Adolygiad, sy'n annibynnol ar y swyddfa CPS leol, a gynhelir gan Uned Apeliadau ac Adolygu'r CPS (ARU). |
| **Cychwyn** | Dechrau erlyniad os nad yw erlyniad wedi'i gychwyn o'r blaen. |
| **Datrysiad Lleol** | Cam yr adolygiad lleol, wedi'i ystyried a'i gwblhau gan y swyddfa CPS leol briodol, neu CPS Direct (CPSD) lle gwnaed y penderfyniad gwreiddiol. |
| **Peidio â chynnig tystiolaeth** | Efallai na fydd erlynydd yn cynnig tystiolaeth naill ai mewn achosion Llys yr Ynadon neu Lys y Goron a'r canlyniad fydd rhyddfarnu'r diffynnydd. |
| **Penderfyniadau Cymhwyso** | Penderfyniadau sy'n gymwys i'w hadolygu o dan VRR |
| **Ailgychwyn** | Ailddechrau erlyniad os oedd erlyniad wedi'i gychwyn o'r blaen. |
| **Wedi'i Wahardd gan Statud** | Trosedd lle mae'r terfyn amser statudol ar gyfer dwyn achos troseddol wedi dod i ben ac nad yw'n bosibl i unigolyn gael ei erlyn am y trosedd hwnnw bellach. Fel arfer mae troseddau sy'n dwyn terfyn amser statudol yn droseddau llai difrifol y mae'n |

| | |
|---|---|
| | rhaid eu cychwyn o fewn 6 mis o ddyddiad y trosedd. |
| **VRR** | Hawl y Dioddefwr i gael Adolygiad |